| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **20 Ebrill, 2014** |
| **TEITL** | **HUNAN ASESIAD** |
| **AWDUR** | **IWAN G D EVANS , SWYDDOG MONITRO** |

1. Pwrpas hunan asesiad ydi rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor ystyried sut mae'n cyflawni ei ddyletswyddau yn erbyn y swyddogaethau sydd wedi eu rhoi iddo dan y rheoliadau ac yng nghyfansoddiad y Cyngor.

2. Mae'r canlyniadau yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar raglen waith y dyfodol.

3. Cyflwynir yma ddrafft o ddogfen hunan asesu sydd wedi ei pharatoi gan y swyddogion. Mae wedi ei llunio fel bod y Pwyllgor yn cael cyfle i asesu ei waith a'i effeithiolrwydd yn erbyn y gofynion statudol a chyfansoddiadol.

4. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried y swyddogaethau a restrir yn y golofn gyntaf ac yna nodi pa asesiad mae'n gredu sy'n berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

Categori 1 – Tystiolaeth bod y Pwyllgor yn cyflawni'r gofynion yn llawn

Categori 2 – Tystiolaeth bod y Pwyllgor yn cwrdd a'r gofynion sylfaenol ond bod modd gwneud rhagor i gwrdd yn llawn

Categori 3 – Dim tystiolaeth bod y Pwyllgor yn cyflawni'r gofynion

5. Mae angen nodi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r categori mae'r Pwyllgor yn ei ddyfarnu. Mae'r golofn "Tystiolaeth" yn dangos peth enghreifftiau o dystiolaeth ond mae'n bosib y bydd aelodau'r Pwyllgor yn gallu ychwanegu ati

6. O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi'r dystiolaeth bydd yn bosib i'r Pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn a pha gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd (os o gwbl). Mae'r golofn olaf yn cynnwys rhai awgrymiadau am gamau pellach. Rhain ydi'r materion fydd yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

**ARGYMHELLIAD**
Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddrafft a chynnal hunan asesiad o'i waith.